Gwasanaeth Canser Felindre
Velindre Cancer Service

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust

## Gwybodaeth i Gleifion ar gyfer Hunanweinyddu Denosumab

Bydd yr wybodaeth ar y dudalen hon yn eich helpu i roi'r driniaeth denosumab i chi'ch hun yn ddiogel trwy bigiad isgroenol (pigiad o dan y croen).

Bydd hunanweinyddu'r feddyginiaeth yn eich galluogi i gael mwy o ryddid ac i reoli eich triniaeth. Mae'r math hwn o bigiad yn ddiogel iawn ond, efallai y bydd gennych rywfaint o gleisio, cochni neu lwmp bach ar safle'r pigiad.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am X-geva denosumab ar wefan Cancer Research UK. Cliciwch ar y ddolen neu sganiwch y cod QR isod.
https://www.cancerresearchuk.org/about-cancer/treatment/drugs/denosumab

## Sut mae fy Nhriniaeth yn cael ei Gweinyddu?

Mae'r feddyginiaeth hon (Xgeva denosumab 120 mg) yn bigiad a roddir unwaith bob pedair wythnos (neu bob tri mis yn dibynnu ar bresgripsiwn) o dan y croen (isgroenol) yn eich abdomen neu yn nhop eich coes.

Mae'r driniaeth yn un rydych chi'n rhoi i chi'ch hun mewn chwistrell wedi'i llenwi ymlaen llaw.

Os ydych chi wedi cael y driniaeth hon yn y clinig o'r blaen, byddech wedi'i chael drwy ffiol.

Gall y chwistrell wedi'i llenwi ymlaen llaw gael ei rhoi gan glaf neu roddwr gofal sydd wedi'i hyfforddi mewn technegau rhoi pigiadau gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Y tro cyntaf y byddwch yn rhoi'r chwistrell XGEVA® wedi'i llenwi ymlaen llaw i chi'ch hun, byddwch yn cael eich goruchwylio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi dros y ffôn neu drwy alwad fideo, i'ch cefnogi gyda'ch triniaeth hunanweinyddu gyntaf gartref.

*Cyhoeddwyd Mawrth 2025*

Ar ôl hynny, byddwn yn cysylltu â chi ar ôl pob dôs i gadarnhau bod y driniaeth wedi cael ei gweinyddu. Mae'n bwysig ein bod yn cofnodi'r wybodaeth hon ar ein systemau clinigol.

**Pwysig: Os oes gennych unrhyw broblemau deintyddol neu os oes gennych boenau newydd yn eich esgyrn, peidiwch â rhoi'r driniaeth a ffoniwch y llinell gymorth driniaeth am gyngor ar 02920 615888.**

### Rhestr Wirio Cyn Gweinyddu

| **Gofynnwch y cwestiynau hyn i chi'ch hun cyn paratoi i roi eich pigiad eich hun** | |
|---|---|
| | **Os mai "Oes/Do" yw'r ymateb** |
| Unrhyw broblemau deintyddol newydd? | Peidiwch â chymryd denosumab a chysylltwch â'ch tîm oncoleg |
| Ydych chi wedi cael triniaeth ddeintyddol ymledol yn ystod y 6 wythnos diwethaf (fel echdynnu, sianel y gwreiddyn neu fewnblaniadau deintyddol) neu'n cynllunio unrhyw driniaeth yn ystod yr 8 wythnos nesaf? | |
| Unrhyw broblemau newydd gyda'ch ceg (symptomau ONJ) | Peidiwch â chymryd denosumab. Ewch i weld eich deintydd ac adroddwch nôl i'r tîm oncoleg ar ôl bod at y deintydd |
| Ydych chi wedi bod yn derbyn denosumab ers dros 2 flynedd? Os felly, ydych chi wedi profi unrhyw boen newydd neu anarferol yn nhop eich coes neu yn eich clun neu'ch gwerddyr? | Cysylltwch â'r tîm oncoleg am gyngor os oes gennych boenau newydd. |

### Paratoi i roi eich pigiadau eich hun

Bydd nyrs yn dangos y sgiliau canlynol i chi:

- Paratoi - mae denosumab yn dod mewn chwistrell wedi'i llenwi ymlaen llaw gyda'r nodwydd wedi'i hatodi i'r chwistrell.

- Sut i roi'r pigiad.
- Storio a chael gwared ar y feddyginiaeth a'r offer. Rhaid storio'r pigiadau denosumab yn y bocs pecynnu mewn oergell nes bod eu hangen.

Bydd pob cam o'r broses yn cael ei ddangos i chi. Byddwch chi (neu eich gofalwr) yn cael eich arsylwi gan nyrs sy'n rhoi Denosumab yn ystod eich apwyntiad clinig. Bydd nyrs yn asesu eich bod yn gymwys ac yn ddiogel i wneud hynny yn eich cartref.

**Offer**

Bydd yr ysbyty yn rhoi'r eitemau canlynol i chi. Mae'n bwysig eu bod nhw gennych chi cyn i chi roi'r pigiad i chi'ch hun.


- Presgripsiwn i chi gasglu chwistrell wedi'i llenwi ymlaen llaw o'ch fferyllfa leol
- Bin ar gyfer eitemau miniog
- Bydd menig y gellir eu taflu yn cael eu darparu os oes rhywun arall yn rhoi'r pigiad i chi

Bydd angen arwyneb glân arnoch hefyd, fel bwrdd neu arwyneb gwaith a rhywfaint o rwyll/gwlân cotwm.

Os na allwch gael chwistrellau o'ch fferyllfa gymunedol, cysylltwch â'r Adran Cleifion Allanol (OPD). Bydd y staff yn gofyn am enw'r fferyllfa a'r rheswm dros y broblem, er mwyn helpu i'w datrys.

**Paratoi i roi'r pigiad**

1. Tynnwch un chwistrell denosumab wedi'i llenwi ymlaen llaw o'r oergell, a gadewch iddi gyrraedd tymheredd ystafell cyn ei chwistrellu. Mae hyn fel arfer yn cymryd 15 i 30 munud, ac yn lleihau unrhyw anghysur o ran cael y pigiad.
2. Gwiriwch y manylion ar label eich meddyginiaeth. Gwnewch yn siŵr bod eich enw ar y label.





3. Gwiriwch fod cynnwys y chwistrell denosumab yn glir ac nad yw wedi'i afliwio, ac nad yw'r dyddiad dod i ben wedi mynd heibio.
4. Golchwch eich dwylo'n drylwyr gyda sebon a dŵr, a'u sychu.

**Rhoi'r pigiad i chi'ch hun**

1. Eisteddwch yn gyfforddus.

2. Gwnewch yn siŵr fod gennych rwyllen/gwlân cotwm yn barod rhag ofn i chi waedu ychydig ar ôl y pigiad.

3. Rhaid rhoi'r pigiad yn nhop eich coes neu yn eich abdomen. Peidiwch â chwistrellu denosumab i groen sydd wedi'i gleisio, wedi torri, sy'n goch, sydd wedi chwyddo neu sy'n galed. Dylech osgoi creithiau, olion ymestyn a chroen sy'n dyner. Newidiwch bob yn ail i chwistrellu i ochr chwith a dde eich bol, neu i dop eich coes chwith a dde. Gallai fod yn help cofnodi'r ardal (safle) rydych chi'n eu defnyddio ar gyfer pob pigiad mewn tabl.




4. Peidiwch â chwistrellu'r feddyginiaeth os ydych chi'n teimlo'n sâl. Cysylltwch â'r llinell gymorth driniaeth am gyngor.

5. Gafaelwch yn y chwistrell a thynnwch gap y nodwydd yn syth i ffwrdd tra'n dal gwaelod y nodwydd, fel petaech chi'n ysgrifennu'ch enw gyda beiro. Dylech dynnu cap y nodwydd dim ond pan allwch chi chwistrellu ar unwaith (o fewn 5 munud), oherwydd gall hyn sychu'r feddyginiaeth. Peidiwch â throi na phlygu cap y nodwydd. Peidiwch byth â rhoi cap y nodwydd yn ôl ymlaen, gan y gallai niweidio'r nodwydd. **Peidiwch** â gadael i unrhyw beth gyffwrdd â'r nodwydd unwaith y bydd cap y

nodwydd yn cael ei dynnu. Peidiwch â cheisio gwthio swigod aer allan o'r chwistrell wedi'i llenwi ymlaen llaw. Mae'n iawn gweld swigod aer. Mae diferyn o feddyginiaeth ar ddiwedd y nodwydd yn normal.

6. Pinsiwch y croen ar y safle rydych chi'n mynd i chwistrellu iddo gyda'ch llaw rydd, a gosodwch y nodwydd ar ongl sgwâr 90 gradd.




7. Pan fydd y nodwydd yn ei lle, gwasgwch y teclyn sugno i lawr nes bod y chwistrell yn wag a bod pen y teclyn sugno yn lefel gyda chlipiau gwarchodwr y nodwydd. Efallai y byddwch chi'n teimlo neu'n clywed 'snap'. **Peidiwch â** thynnu'n ôl ar y teclyn sugno ar unrhyw adeg. **Peidiwch â** thynnu'r nodwydd nes bod yr holl feddyginiaeth wedi'i dosbarthu.




8. Gyda'ch bawd yn dal ar y teclyn sugno, codwch y chwistrell i ffwrdd oddi wrth eich croen. Unwaith y bydd y nodwydd i ffwrdd o'r croen, bydd yn symud i'r gwarchodwr nodwydd pan fyddwch chi'n tynnu'ch bawd oddi ar y teclyn sugno. **Peidiwch** â rhwbio safle'r pigiad.

9. Rhowch rwyllen/gwlân cotwm ar safle'r pigiad a'i orchuddio â phlastr – os oes angen.

10. Taflwch y chwistrell yn y bin eitemau miniog. Pan fydd eich bin eitemau miniog yn llawn, dylech ei ddychwelyd i adran cleifion allanol Felindre i gael un arall. Fel arall, gallwch gael gwared ar y bin eitemau miniog yn eich ysbyty lleol.

**Cwestiynau Cyffredin**

**Sut byddaf yn cael fy mhresgripsiwn nesaf?**

Pan fyddwch wedi cael eich gweld yn y clinig, bydd gwerth 3 mis o denosumab yn cael ei ragnodi i chi, 3 pigiad, un ar gyfer pob mis (os ydych yn ei gael bob mis). Dylid casglu'r presgripsiynau hyn o'ch fferyllfa leol. Nid ydynt ar gael i'w casglu o'r fferyllfa ar y safle o fewn Gwasanaethau Canser Felindre.

**Beth os byddaf yn anghofio cymryd fy mhigiad ar y dyddiad penodedig?**

Nid yw ychydig o ddyddiau naill ochr i'ch dyddiad pigiad arfaethedig yn broblem. Os yw'r oedi'n fwy nag wythnos, ffoniwch yr ystafell driniaeth cleifion allanol drwy'r switsfwrdd am gyngor, sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30 a 5.30.

**A allaf fynd â fy nosau denosumab ar wyliau gyda mi?**

Gallwch. Os ydych yn hedfan, holwch y cwmni hedfan. Fel arfer, caniateir i deithwyr gario chwistrelli yng nghaban yr awyren, os oes eu hangen am resymau meddygol. Fodd bynnag, dylai teithwyr gario llythyr meddyg yn cadarnhau hyn.

Sylwch, unwaith y bydd y chwistrell wedi'i llenwi ymlaen llaw wedi'i gadael i gyrraedd tymheredd ystafell (hyd at 25 ° C), peidiwch â'i rhoi yn ôl yn yr oergell, a rhaid ei defnyddio o fewn 30 diwrnod.

**Beth os byddaf yn cael anawsterau wrth roi'r driniaeth e.e. problem gyda'r ddyfais?**

Rydym bob amser wrth law i ddarparu cyngor ac arweiniad. Mewn achos annhebygol bod problem gyda’r chwistrell, ffoniwch yr ystafell driniaeth cleifion allanol drwy'r switsfwrdd am gyngor, sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30 a 5.30.

**Beth os na allaf gymryd tabledi calcichew?**

Os ydych chi'n cael anawsterau naill ai gyda chael gafael ar eich tabledi calcichew neu’n cael problemau llyncu, cysylltwch â'ch tîm oncoleg am gyngor.

**A allaf ddefnyddio'r dos 60 mg o Denosumab (Prolia) ddwywaith yn lle'r dos X-geva 120 mg?**

Na, **dim ond** y dos **X-geva 120mg** y dylech ei ddefnyddio.

**Beth os ydw i'n cymryd y denosumab o'r oergell ond dim yn ei ddefnyddio?**

Ysgrifennwch y dyddiad y cafodd ei dynnu o'r oergell ar y bocs denosumab a'i storio mewn lle oer, tywyll. Dylech ei ddefnyddio o fewn 30 diwrnod.

Gwasanaeth Canser Felindre
Velindre Cancer Service

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust

Mi fydd aelod o'n tîm yn cysylltu gyda chi ar ôl 4 o'r gloch yr hwyr y tro cyntaf er mwyn eich cefnogi gyda'ch hunan-wasanaeth o'r triniaeth. Tynnwch y triniaeth allan o'r oergell cyn 15:30 ar y tro cyntaf i chi wneud y chwistrelliad adref, er mwyn iddo fod ar y tymheredd iawn erbyn eich galwad o'r nyrs am 16:00. Am y triniaethau dilynol mi fydd aelod o'n tîm yn cysylltu o fewn ychydig ddiwrnodau o'r chwistrelliad i cadarnhau ei fod wedi cael ei weinyddu a bod popeth wedi mynd yn iawn ynglŷn â'r broses.

**Cerdyn Cofnod Hunanweinyddu Denosumab**

Enw’r claf:

| | Dyddiad gweinyddu | Safle (ar y corff) | Rhoddwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| 2 | | | |
| 3 | | | |
| 4 | | | |
| 5 | | | |
| 6 | | | |
| 7 | | | |
| 8 | | | |
| 9 | | | |
| 10 | | | |
| 11 | | | |
| 12 | | | |
| 13 | | | |
| 14 | | | |
| 15 | | | |
| 16 | | | |
| 17 | | | |
| 18 | | | |
| 19 | | | |
| 20 | | | |
| 21 | | | |
| 22 | | | |
| 23 | | | |
| 24 | | | |

Gwasanaeth Canser Felindre
Velindre Cancer Service

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust

**Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth! Sganiwch y cod QR isod i gwblhau holiadur byr am eich profiad mewn perthynas â hunanweinyddu Denosumab. Bydd eich mewnbwn yn ein helpu i wella'r gwasanaeth. Sylwch na ddylid defnyddio'r ffurflen ar gyfer ymholiadau clinigol.**